Ni fentrodd NEB anfon atebion i'r CWIS CERDDI a luniodd Dylan Foster Evans ar gyfer rhifyn yr Eisteddfod o Barddas, ond gan fod amryw wedi holi amdanyn nhw wedyn, dyma nhw!

1. Enw'r bardd o blwy Llangeinwyr o'r 16 ganrif: **DAFYDD BENWYN**
2. Hen enw Elevens gyferbyn â chastell Caerdydd: **YR HEN GRONNELL**
3. Enw'r archdderwydd fu'n gweithio yn nociau Caerdydd: **DYFED**
4. Enw'r stryd a roes ei henw i gyfrol o gerddi (gan Jarman): **ALFRED STREET**
5. Enw'r parc lle bu Alun Llywelyn-Williams yn 'ymblesera': **PARC Y RHATH**
6. Enw'r bwyty lle methodd Grahame Davies â chadw bwrdd oedd **LE GALLOIS**
7. Enw'r bardd sy'n galw Caerdydd 'fy nhref i, fy nhir fy hun' ydi **MERERID HOPWOOD**
8. Enw'r heol mae Lona Mari Walters yn ei chasáu ydi **CATHEDRAL ROAD**
9. Enw'r gwron y bu Mererid yn barddoni o dan ei gysgod oedd **JOHN BATCHELOR**
10. Enw'r sgwâr mae Meic Stephens yn canu amdano ydi **LOUDOUN SQUARE**
11. Enw'r lle roedd Rhys Iorwerth yn sôn amdano pan ddywedodd: 'Yn fan hyn, aeafau'n ôl, / yn ddifaddau o feddwol, / fe'i gwelais; estynnais stôl…' ydi **CLWB IFOR BACH**
12. Enw'r 'Gwr deddfol, dwys Gaerdyddfardd' ydi **EMYR LEWIS**